

Sut i Flocio a Dileu?



Blocio a Dileu ffrindiau

Mae blocio rhywun ar Snapchat yn golygu y byddan nhw'n cael eu rhwystro rhag anfon lluniau, fideos (Snaps) a Sgyrsiau atoch chi, ac yn cael eu rhwystro rhag gweld eich Straeon (Stories). Mae dileu rhywun yn golygu na fyddan nhw'n ymddangos ar eich rhestr ffrindiau, ond eich gosodiadau preifatrwydd fydd yn penderfynu pa un ai a ydyn nhw'n dal i allu gweld eich Snaps. I flocio neu i ddileu un o'ch cysylltiadau:

- Tarwch enw'r defnyddiwr rydych chi am ei flocio neu ei ddileu ar eich tudalen **'My Friends'**.
- Tarwch yr eicon gêr sy'n ymddangos wrth ei enw.
- Dewiswch **'Block'** i atal Snaps a Sgyrsiau, neu i atal y defnyddiwr rhag gweld eich Straeon.
- Dewiswch **'Remove Friend'** i gael gwared arno o'ch rhestr ffrindiau.
- I flocio rhywun sydd ddim ar eich rhestr ffrindiau, symudwch eich bys ar ei enw ar y sgrin Chat i ddechrau sgwrs gyda nhw. Yna, tarwch y botwm yn y gornel chwith uchaf i fynd ar eu proffil, lle bydd modd i chi ei flocio.

I ddadflocio defnyddiwr:

- Tarwch yr ysbryd ar dop y sgrin camera. Yna tarwch yr eicon gêr a sgrolio i lawr i **'Account Actions'** a tharo **'Blocked'**. Dylech allu gweld rhestr o'r defnyddwyr Snapchat rydych chi wedi'u blocio. Tarwch yr X wrth eu henw er mwyn eu dadflocio.
- Yn dibynnu ar eich gosodiadau preifatrwydd, efallai y bydd angen i chi ail-ychwanegu eich gilydd fel ffrindiau er mwyn gallu anfon Snaps a Sgyrsiau i'ch gilydd.

Sut i gadw rheolaeth?

Newidiwch eich Gosodiadau Preifatrwydd

Dim ond defnyddwyr rydych chi'n ychwanegu i'ch rhestr ffrindiau sydd yn gallu gyrru Snapiau i chi fel rhagosodiad. Os oes rhywun yn ceisio gyrru Snap i chi sydd ddim ar eich rhestr ffrindiau, byddwch yn derbyn hysbysiad eu bod wedi eich ychwanegu, ond dim ond pan fyddant yn cael eu hychwanegu gennych chi fyddwch ch'n derbyn y Snap oddi wrthynt. I newid pwy sy'n gallu gyrru Snap i chi:

- Tapiwch yr ysbryd ar sgrin y camera i gael mynediad i'ch proffil, yna tapiwch yr eicon gêr yng nghornel dde uchaf y sgrin a sgroliwch i lawr i'r adran **'Who Can'**.
- Gyda Snaps: tarwch yr opsiwn **'Contact Me'** a dewiswch naill ai
 - **'Everyone'** - mae hyn yn caniatáu i unrhyw un anfon Snaps atoch chi (hyd yn oed dieithriaid).
 - **'My Friends'** - dim ond eich ffrindiau fydd yn gallu anfon Snaps atoch chi.

Gyda Straeon: tarwch yr opsiwn **'View My Story'** a dewis naill ai:

- **'Everyone'** - Mae hyn yn caniatáu i unrhyw un weld eich Straeon (hyd yn oed dieithriaid)
- **'My Friends'** - dim ond eich ffrindiau fydd yn gallu anfon Snaps atoch chi
- **'Custom'** - mae hwn yn caniatáu i chi ddewis pa ffrindiau sy'n gallu gweld eich Straeon.

Nodyn: I glirio sgwrs, tapiwch yr ysbryd, yna tapiwch y gêr yng nghornel dde uchaf y sgrin a sgrolio i **'Clirio Sgyrsiau'**.

Ble i fynd am gefnogaeth bellach?

Canolfan Ddiogelwch Snapchat: www.snapchat.com/safety

Cefnogaeth Snapchat: <https://support.snapchat.com>

Canllaw Snapchat i Rieni gan ConnectSafely:

www.connectsafely.org/wp-content/uploads/snapchat_parents_guide.pdf

Newidiadau diweddaraf ar Flog Snapchat: <http://blog.snapchat.com>

Canolfan Rhyngwrwyd Mwy Diogel y DU: www.saferinternet.org.uk

Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol: www.saferinternet.org.uk/helpline

Adrodd Delweddau Camdriniaeth Plant i'r IWF: www.iwf.org.uk

Adrodd camdriniaeth neu baratoi plant i bwrpas rhyw i CEOP: <http://ceop.police.uk>

Llinell Gymorth Get Connected: www.getconnected.org.uk

Mae copi o'r rhestr wirio hon ynghyd â deunyddiau Diogelwch Ar-lein eraill ar gael yn y siop SWGfL www.swgflstore.com www.swgflstore.com



Caiff ei ariannu ar y cyd gan Gyfleuster Cysylltu Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd

Mai 2017

Rhestr Wirio - Snapchat

- Beth ydy Snapchat?
- Sut i gadw rheolaeth?
- Sut i ddod o hyd i'm ffrindiau?
- Sut i flocio a dileu?
- Sut i adrodd problem?
- Ble i fynd am gefnogaeth bellach?

**Gwnewch
y Gwiriad**



Beth ydy Snapchat?



Mae Snapchat yn ap anfon lluniau unigryw. Gall defnyddwyr dynnu lluniau, recordio fideos, ychwanegu testun a darluniau a'u hanfon at bobl. Nid yw'r Snaps hyn yn cael eu cadw'n ddiodyn ac felly mae'n teimlo'n debyg i gael sgwrs gyffredin. Unwaith mae pawb wedi gweld y Snap, mae system Snapchat yn ei ddileu o'r gweinyddion yn awtomatig. Fel rheol, ni all neb adalw Snapiau sydd wedi'u hagor o weinyddion Snapchat, am unrhyw reswm. Ar ôl cofrestru bydd 'Tîm Snapchat' yn gyrru cyfres o 'Snapiau' i chi yn awtomatig i esbonio'r hanfodion.

Cyfyngiadau Oedran

Nid yw Snapchat yn addas ar gyfer plant dan 13 oed. Dylai pobl ifanc 13-17 oed ofyn caniatâd gan riant neu warchodwr cyfreithiol i ddefnyddio'r ap. Gellir dileu cyfrif Snapchat drwy fynd i https://accounts.snapchat.com/accounts/delete_account a chyflwyno enw defnyddiwr a chyfrinair y plentyn. Os yw Snapchat yn cael gwybodaeth sy'n dweud fod defnyddiwr o dan 13 oed, bydd yn terfynu'r cyfrif.


Nodyn: Os ydych chi'n anghofio eich cyfrinair gallwch gyflwyno cais i newid cyfrinair ar: https://accounts.snapchat.com/accounts/password_reset_request

Sut i ddod o hyd i'm ffrindiau?




Darganfod ac Ychwanegu Ffrindiau


Tapiwch ar yr ysbryd ar sgrin y camera.

- I ychwanegu ffrindiau, tarwch ar yr eicon **'Add Friends'**. O'r fan honno, gallwch ychwanegu ffrindiau gan ddefnyddio enw defnyddiwr, llyfr cyfeiriadau eich dyfais, Snapcode, neu'r nodwedd 'Add Nearby'. I ychwanegu ffrindiau o'ch llyfr cyfeiriadau, bydd gofyn i chi ddilysu eich rhif ffôn. Ar ôl i chi ei ddilysu, bydd yr holl gysylltiadau ar eich ffôn sydd â chyfrif Snapchat yn cael eu harddangos. Bydd ffrindiau nad oes ganddynt Snapchat hefyd yn cael eu harddangos, a gallwch eu gwahodd i'w ddefnyddio drwy anfon neges SMS atynt.
- I ychwanegu ffrind sydd wedi'ch ychwanegu chi eisoes, tapiwch **'Added me'**, edrychwch am ei enw defnyddiwr ar y rhestr, yna tapiwch yr arwydd plws  wrth ymyl yr enw

Os nad ydych chi am i'ch ffrindiau eich darganfod gyda'ch rhif ffôn:

- Tapiwch yr ysbryd ar sgrin y camera, yna tapiwch ar yr eicon gêr  yng nghornel dde uchaf y sgrin.
- Tapiwch **'Rhif Symudol'**.
- Diffoddwch y botwm **'Caniatáu i'm ffrindiau fy narganfod'** i ddatgysylltu eich rhif ffôn.

Streaks

Mae'r nodwedd Streaks ar Snapchat yn rhoi gwybod i chi sawl diwrnod yn olynol rydych chi wedi bod yn cyfnewid snaps gyda rhywun arall. Bydd hyn yn cael ei gynrychioli gan emoji a rhif wrth ymyl eu henw, er enghraifft  300. Mae'n ffordd i ddefnyddwyr Snapchat fesur cyfeillgarwch, ond hefyd yn ffordd glyfar i Snapchat gadw eu defnyddwyr ar yr ap. Mae'n demtasiwn i barhau i anfon snaps, ond mae hyn er mwyn cael boddhad personol yn unig ac nid yw'n rhywbeth rydych chi angen ei wneud er mwyn cynnal cyfeillgarwch.


Sut i adrodd problem?



Mae Snapchat yn annog hunanfyneiant, ond am weld defnyddwyr Snapchat yn defnyddio'r ap mewn modd diogel fel eu bod yn mwynhau. Nid yw Snapchat yn goddef Snaps sy'n rhannu:

- Pornograffi, noethni neu luniau awgrymog rywiol sy'n cynnwys pobl o dan 18 oed
- lluniau sy'n ymyrryd ar breifatrwydd neu'n dynwared pobl eraill
- lluniau sy'n bygwth, yn aflonyddu neu'n bwlio pobl eraill
- Hunan-niweidio

Mae'n bosib y bydd Snapchat yn cael gwared ar gynnwys o'r fath ac yn atal cyfrifon a byddant yn cael eu gwahardd rhag defnyddio Snapchat yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghaniatáu Cymunedol Snapchat yn <https://support.snapchat.com/en-GB/a/guidelines>.

Mae nodweddion adrodd Snapchat yr un peth ar bob dyfais. Gall defnyddwyr symudol a llechen ddarganfod yr holl lwybrau adrodd wrth dapio ar yr ysbryd ar sgrin y camera; tapio ar yr eicon gêr  a dewis **'Support'**. Gall defnyddwyr cyfrifiaduron desg roi gwybod am bryder sy'n ymwneud â diogelwch yn <https://support.snapchat.com/en-GB/i-need-help>

Beth arall gallaf ei wneud ar Snapchat?



Stories

Mae 'Straeon' yn nodwedd sy'n eich galluogi chi i wneud cadwyn o Snaps i greu naratif a fydd yn para am 24 awr. Gallwch newid eich gosodiadau preifatrwydd er mwyn penderfynu a fydd y lluniau a'r fideos sy'n cael eu hychwanegu yn y nodwedd Straeon yn gallu cael eu gweld gan holl ddefnyddwyr Snapchat, dim ond eich ffrindiau, neu gan grwpiau rydych chi wedi'u creu

'Lenses', 'Filters' a 'Stickers'

Mae'r nodwedd Filters yn ffordd lawn hwyl o addasu eich snaps gyda throshaenau fel yr amser neu'r tywydd. Mae 'Geofilters' yn benodol i lleoliadau gwahanol a bydd eu dyluniadau unigryw yn newid o le i le, ac felly mae angen galluogi gwasanaethau lleoliad eich dyfais er mwyn eu defnyddio. Cofiwch, os ydych chi'n ychwanegu 'Geofilters' at eich Snaps neu'ch Straeon, rydych chi'n cyhoeddi lle rydych chi i bawb sy'n gallu eu gweld. Mae'r nodwedd Lenses yn ychwanegu effeithiau arbennig a synau amser real at Snap. Lluniau a chartwnau lliwgar yw Stickers, sy'n rhoi ffyrdd eraill o fynegi eu hunain i ddefnyddwyr.

Discover

Mae'r nodwedd Discover yn caniatáu i ddefnyddwyr Snapchat archwilio sianeli gan gyhoeddwyr sefydledig sy'n creu eu cynnwys eu hunain. Mae'r sgrin Discover hefyd yn cynnwys detholiad o Live Stories ar y diwrnod. Mae Live Stories yn ffordd o Snaps gan ddefnyddwyr Snapchat sydd mewn lleoliadau a digwyddiadau amrywiol ledled y byd. Bydd defnyddwyr Snapchat sydd â'u gwasanaethau lleoliad ar waith mewn digwyddiadau a lleoliadau penodol yn cael dewis cyfrannu eu Snaps at y Live Story. Canlyniad hyn yw stori sy'n cael ei dweud o safbwynt cymuned, ac felly mae'n cynnig llawer o safbwyntiau gwahanol.

Anfon fideos a thestun ar Chat

Mae Snapchat hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr anfon fideos a thestun. Fel Snaps, mae'r sgwrsiau hyn yn diffannu pan fydd y derbynydd yn gadael y sgrin Chat. Ond, yn y nodwedd Chat, mae gan ddefnyddwyr opsiwn o gadw neges yr hoffon nhw ei chadw. Pan fyddwch yn cadw sgwrs, bydd eich ffrind yn gallu gweld eich bod wedi gwneud hynny gan y bydd cefndir llwyd tywyll y tu ôl i'r neges.

Memories

Yn y nodwedd Memories ceir casgliad personol o'r Snaps a'r Straeon rydych chi wedi'u cadw. Gellir defnyddio'r nodwedd Memories i greu Straeon a Snaps newydd. Gall defnyddwyr Snapchat hefyd ddewis cadw lluniau penodol o'r nodwedd Memories yn yr adran "My Eyes Only", a ddiogelir gan gyfrinair.